

hynod o anodd ac yn wyneb erlid a gwrthwynebiad. Roedd yn braf iawn clywed am y gwaith hwn gan mai peth dieithr yw i ni glywed am Gristnogion o Gymru yn cael cyfle i weinidogaethu heddiw mewn gwledydd fel Hwngari ac Albania a Moldofa. Diolchwyd iddo gan Mr Brian Price.

## Yr Henaduriaeth

Yn yr Henaduriaeth yng Nghapel Horeb, Rhostryfan ddydd Mawrth cyflwynodd y Gweinidog goffad i Mrs Margaret Cynfi Griffith. Hwn oedd cyfarfod cyntaf yr Henaduriaeth ers marwolaeth Margaret ym mis Rhagfyr.

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos, a diolch i Dafydd a Gwenno am eu help unwaith eto.

## 'Y Ffordd'

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn festri Carmel am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Mawrth 15.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Mawrth 12:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Mawrth 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Mawrth 12

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

#### Mawrth 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Mawrth 12:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mawrth 12:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Mawrth 12:** Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CARMEL

**Dydd Llun, Mawrth 6:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Mawrth 10:** Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 12:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Mawrth 6:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caecathro am 10.30 o'r gloch.

## Y mis nesaf - Llanberis

### Mawrth 5

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

### Mawrth 12

10.00 a.m. - YGweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Mawrth 19

10.00 a.m. - Oedfa yng ngofal  
Gareth Jones a Colin Jones

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa yn ngofal  
Parti Bytholwyrdd



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 719: Dydd Sul, 05 Mawrth, 2017

## Beth a ddaw?

yn arbennig pan nad oes ganlyniadau amlwg i'r gwaith hwnnw. Wedi'r cwbl, mae pob garddwr yn hoffi gweld ffrwyth i'w lafur, pob pysgotwr eisiau rhwyd lawn, a phawb sy'n gwahodd i unrhyw fath o barti am weld pobl yn derbyn y gwahoddiad.

Ydi, mae'n anodd dal ati pan nad yw'r canlyniadau'n hysbys. Ac mae hynny yn arbennig o wir os dechreuwn amau a welir llwyddiant. Ond diolch am hynny, mi allaf ddal i sgwennu heno gan fy mod yn eithaf sicr y caf ei anfon at un ohonoch i'w brintio erbyn y bore. Na, nid yw'n anobeithiol arnaf o bell ffordd. Ac er nad oes gennym reolaeth dros ganlyniadau gwaith yr Efengyl, nid yw'n anobeithiol arnom ninnau. Oherwydd mae gennym Dduw mawr, cadarn a thrugarog, sy'n gofalu am y canlyniadau hynny. Yn ei law ef y mae'r cynhaeaf a'r helfa bysgod a phob ymateb cadarnhaol. Duw ei hun, ac nid yr un ohonom ni, sy'n galluogi pobl i gredu'r Efengyl.

Rhan o anturiaeth gwaith yr Arglwydd yw na wyddom beth a ddaw. Nid poeni am y canlyniadau ddylem ni ei wneud ond sicrhau ein bod yn ffyddlon yn ein tystiolaeth i Grist. Ceisio perswadio pobl o'i fawredd ef yw ein cyfrifoldeb ni, gan adael i Dduw fywhau ac ennyn ffydd. A rhan o'r anturiaeth yw ein bod yn medru edrych ar Dduw, a rhyfeddu at ei gariad a'i ras, nid yn unig yn dwyn i ni waredigaeth ond yn rhoi i ni ran yn y gwaith o gyhoeddi'r cyfan a wnaeth trosom yn ei Fab.

Wn i ddim a wêl y rhifyn hwn olau dydd fore Sul gan fod rhywbeth mawr yn bod ar yr argraffydd ar fy nesg. Mae'n llyncu papur yn awchus gan ei rwygo ac achosi camdreuliad go arw rywle yng ngwaelod ei fol. Mae gen i ofn nad oes obaith iddo wella cyn y bore, os o gwbl. Yn sicr, wnaiff o ddim ei wella'i hun, a dwi'n ofni mod i eisoes wedi gwneud mwy o ddrwg nag o les i'r creadur wrth geisio'i helpu. Ac am ei bod yn bosibl na fydd neb yn ei weld, mae angen mwy o sêl nag arfer heno i orffen y rhifyn arbennig hwn.

Profiad tebyg sydd i'w gael yn aml yng ngwaith yr Efengyl. Wyddon ni ddim beth a ddaw o'n hymdrechion i rannu'r Ffydd. Wyddon ni ddim a fydd neb yn gwrandao, a fydd neb yn cymryd sylw o'r hyn a gyhoeddwn; a gall hynny wneud y dasg yn anodd. Ac yn sicr wyddon ni ddim a fydd neb yn credu'r newyddion da ac yn troi mewn ffydd at yr Arglwydd Iesu Grist, er mai dyna'r peth mwyaf y dymunwn ei weld.

Ie, gweithio heb sicrwydd wna Eglwys Iesu Grist o ran canlyniadau'r gwaith gan nad oes modd gwybod pa ymateb fydd yn unman i bregethu'r Efengyl. Mae'n hau, heb wybod beth a fedir; yn pysgota, heb wybod beth a ddelir; yn gwahodd, heb wybod a fydd neb yn derbyn. Ni wŷr yr Eglwys beth a ddaw o'i hymdrechion i wasanaethu Iesu Grist a'r Efengyl. Dim ond yr hau a'r pysgota a'r gwahodd sydd yn ei dwylo hi. Ac ar brydiau, oherwydd hynny, gall fod yn anodd dal ati yn y gwaith,

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



'Bydd y cyfiawn yn gweld ac yn ofni, yn chwerthin am ei ben ac yn dweud, "Dyma'r un na wnaeth Dduw yn noddfa, ond a ymddiriedodd yn nigonedd ei drysorau, a cheisio noddfa yn ei gyfoeth ei hun"' (Salm 52:6-7).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, ac yna gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mr John O. Roberts, Ffordd Pen y Bryn, Bethesda a fu farw ddydd Sadwrn, Chwefror 25. Gwasanaethodd eglwysi'r Ofalaeth fel pregethwr cynorthwyol am flynyddoedd lawer. Cynhelir ei angladd yng nghapel Shiloh, Tregarth ddydd Mawrth.

## "Diolch, Andrew"

Yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul diwethaf oedd yr oedfa olaf i Andrew Settatee gymryd rhan ynddi yn ei swydd fel Gweithiwr Ieuenctid Cynllun Efe. Fel y digwyddodd, hanner yr oedfa gafodd o gan iddo arwain oedfa yng Nghapel y Rhos, Llanrug cyn dod i Lanberis. Yn naturiol, cawsom gyfle i ddiolch iddo am ei holl waith yn Capel Coch, ac wedi'r oedfa cafwyd sgwrs a phaned.

Nos Fawrth, cafwyd cyfarfod arbennig iawn yng Nghapel y Rhos i ddiolch iddo am ei waith yn ein plith ym Mro'r Eco ers mis Hydref 2008.

Llywyddwyd gan y Parchg Marcus Robinson. Darllenwyd o'r Ysgrifur gan Colin Jones ac roedd y canu mawl yng ngofal Susan Williams.

Diolchwyd i Andrew ar ran yr ieuenctid gan Gwernan Brooks, Llanrug a Cadi Thomas, Iolo Roberts ac Aled Pritchard, Llanberis. Siaradodd y pedwar yn wych iawn am y gwaith da a wnaeth Andrew, am ei baratoadau manwl ar eu cyfer bob

amser, am ei ofal amdanynt ac am ei garedigrwydd atynt. Roedd yn amlwg eu bod wedi mwynhau ei gwmni ac wedi bod ar eu hennill o gael Andrew yn eu dysgu ac yn cyflwyno'r neges fawr am Iesu Grist iddynt. Roeddent yn amlwg yn adnabod Andrew yn dda, ac wedi dod yn ffrindiau mawr ag o. Soniwyd am wir ddiddordeb Andrew ynddyn nhw fel pobl ifanc. Un enghraifft o hynny oedd ei gefnogaeth i hogiau CIC fel aelodau o dîm pêl droed ieuenctid Llanberis trwy ddod i weld eu gemau yn aml.

Fy ngwaith i oedd atgoffa pawb am waith Andrew a rhai o'r gweithgareddau y bu'n eu trefnu. Soniwyd am ei waith yn y capeli a'r eglwysi a'r ysgolion, y clybiau CIC a'r gweithgareddau a'r ymweliadau a drefnodd ar eu cyfer, y clybiau gwyliau a'r digwyddiadau arbennig, y cyfleoedd a gafwyd o bryd i'w gilydd i gyfarfod â Christnogion o'r Iwerddon a'r America ac Ynys Manaw, a'r holl gyrsiau yng Ngholeg y Bala. Ac er na fuom yng Nghynllun Efe erioed y gorau am dynnu lluniau, roedd digon o luniau ar gael i'n hatgoffa o rai o'r digwyddiadau hyn.

Roedd yn braf gweld Bryn Williams, sy'n weinidog ym Mhwlheli, yn yr oedfa gan mai gyda Bryn y bydd Andrew yn gweithio am ran helaeth o'r amser yn ei swydd newydd.

Cyflwynwyd anrhegion i Andrew ar ran Cynllun Efe gan Clive James a Richard Lloyd Jones, dau o'r Ymddiriedolwyr. Cyflwynodd Clive siec, ac oherwydd fod Andrew mor hoff o bêl droed, crys pêl droed Cymru a llyfr am chwaraewyr rhyngwladol Cymru a gyflwynwyd gan Richard. Cyflwynodd Non Llwyd lun iddo ar ran aelodau CIC Llanrug, ac yn olaf cyflwynwyd iddo'r dysteb ar ran Capel Coch. Diolch yn fawr iawn wrth gwrs am bob cyfraniad a gafwyd at y dysteb honno. Dymunwn bob bendith i Andrew yn ei swydd newydd gyda'r Presbyteriaid yn Llŷn ac Eifionydd.

## Dydd Gweddi

### Byd eang y Chwiorydd

Cynhaliwyd Gwasanaeth blynyddol Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Ebeneser, Deiniolen ac yn Jerusalem, Bethesda nos Wener. Diolch i bawb a gymerodd ran neu a drefnodd y cyfan. Yn Neiniolen, gwnaed casgliad o £20 at Gronfa Genedlaethol y Dydd Gweddi.

Y thema eleni oedd 'Ydw i'n annheg â thi?' Roedd y gwasanaeth wedi ei baratoi gan Gristnogion o Ynysoedd y Pilipinas, gyda Dameg y Gweithwyr yn y Winllan (o Mathew 20:1-16) yn sail iddo.

## Cyfarfod Gweddi

Wyddoch chi beth? Wedi'r holl sôn am ffarwelio ag Andrew a'r chwithdod o'i weld yn gadael ei swydd, mae'n braf cael dweud y cynhelir Cyfarfod Gweddi wythnosol Cynllun Efe yn 'Cartref', Caeathro am 11.00 o'r gloch fore yfory, dydd Llun, Mawrth 6. Mae Andrew wedi cychwyn ei swydd newydd yn Llŷn ac Eifionydd ers dydd Mercher, ond am y tro mae am barhau i gyfarfod efo ni i weddio ar fore Llun dros waith Efe.

## Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun ddiwethaf cafwyd sgwrs gan y Parchg Dafydd Job am ei ymweliadau dros y blynyddoedd â Christnogion ac eglwysi yn Nwyrain Ewrop. Ers iddo ymweld gyntaf â Christnogion yn ninas Prague yn Siecoslofacia, cyn i'r wlad honno rannu yn Slofacia a Gweriniaeth Siec, mae Dafydd wedi bod yn ymweld ag eglwysi mewn sawl gwlad. Erbyn hyn, mae'n teithio i Ddwyrain Ewrop hyd at bum gwaith y flwyddyn i bregethu ac annog y Cristnogion yno. Mae yntau, fel y clywsom, yn cael ei galonogi a'i gysuro gan dystiolaeth y bobl hyn i'r Ffydd, yn aml iawn mewn amgylchiadau